

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr Gweithredu o ran y Gymraeg – 2016/17

Annwyl Gomisiynydd,

Cyflwynaf ar eich cyfer Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithrediad blwyddyn gyntaf y Safonau Iaith. Mae'r Adroddiad yn dilyn yr un fformat ag adroddiad paratoadol llynedd – gyda thystiolaeth o gynnydd yn erbyn pwyntiau gweithredu ar gyfer pob Safon. Mae'n debygol y bydd yr adroddiadau blynyddol o hyn allan, fodd bynnag, yn dilyn fformat ychydig yn wahanol gyda Safonau wedi eu grwpio, gan y bydd llawer o'r gwaith i gydymffurfio â'r Safonau'n parhau'n gyson a heb fod angen eu hailadrodd.

Yn ystod 2016/17, mae Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar y Gymraeg wedi parhau i dderbyn diweddariadau cyson o ran y Safonau yn ystod 2016/17, ac wedi parhau â'i rôl allweddol wrth fonitro cynnydd a galw am dystiolaeth o'r cynnydd hwnnw gan adrannau penodol o fewn y cyngor.

Mae'r Fforwm Sirol, sy'n cael ei arwain gan y Cyngor ac yn cynnwys cynrychiolaeth o fudiadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion iaith, hefyd wedi parhau gyda'i rôl o ddatblygu rhaglen o hybu'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth i lunio Strategaeth Hybu Sir Gâr, yn unol â'r Safon Hybu.

Wrth lunio adroddiad 2015/16, fe ddyrannwyd argymhellion Adroddiad, 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' rhwng y *Polisi defnydd Mewnol*, *Cynllun gweithredu'r Safonau*, y *Strategaeth Hybu a Chynllun y Gymraeg mewn Addysg*, ond yn ystod y broses o lunio'r Strategaeth hybu, daeth i'r amlwg y bydd Cynllun Gweithredu'r Strategaeth honno yn cynnig cartref delfrydol i'r argymhellion (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud ag addysg). Fe fyddwn yn adrodd ar argymhellion *Y Gymraeg yn Sir Gâr*, felly, yn Adroddiadau Cynllun Gweithredu'r Strategaeth hybu ac ni fyddant bellach yn ymddangos fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Gwnaed llawer iawn o waith cyfathrebu mewnol yn ystod 2016-17 gan adeiladu ar y gwaith o greu'r canllawiau i gyfleu'r safonau a ddigwyddodd yn y flwyddyn baratoadol. Gosodwyd yr holl ganllawiau ar y fewnrwyd ac fe grëwyd canllaw newydd sydd yn gymorth i staff i ysgrifennu'n Gymraeg gan ddefnyddio'r cymorth electroneg sydd ar gael i bawb, (gw. Atodiad 1). Fel y gellir gweld yng Nghynllun Cyfathrebu 2016-17 (gw. Atodiad 2), mynychwyd nifer o sioeau teithiol mewnol i ledaenu'r negeseuon ac i ddosbarthu'r canllawiau, ac ym Mis Hydref mynychwyd cynhadledd y rheolwyr yn ogystal. Gwnaed cyflwyniadau i grwpiau amrywiol o staff ac fe wnaed llawer o waith cyfathrebu drwy gyfryngau electroneg dorfol yn ogystal â thrwy'r cylchlythyr electroneg a'r cylchlythyr papur sy'n cael ei ddosbarthu gyda'r slipiau cyflog. Ar ben hyn, crëwyd deunyddiau cynorthwyol ychwanegol i gyd-fynd gyda'r Canllawiau, yn cynnwys clipiau sain, rhestrau geirfa, fideos a thempledi (gw. Atodiad 3). Dyluniwyd ac argraffwyd, hefyd, bosteri ar gyfer eu harddangos yn ystafelloedd argraffu'r Cyngor i atgoffa staff i weithio'n ddwyieithog, (gw. Atodiad 4).

Bu'r Cyngor yn brysur hefyd yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd. Rhedwyd yr ymgyrch a gyhoeddwyd yn 'Newyddion Sir Gâr' llynedd eto eleni, gan gynnwys hysbyseb i annog dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg wrth gysylltu gyda'r Cyngor (gw. Atodiad 2). Ymestynnwyd yr ymgyrch hon hefyd i arosfannau bysys (gw. Atodiad 2). Dewiswyd 6 ardal sy'n ardaloedd blaenoriaeth yn y Fforwm Strategol Sirol i arddangos posteri ynddynt. Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth hybu, defnyddiwyd baner ar dudalen cartref y wefan gorfforaethol i dynnu sylw'r cyhoedd ato (gw. Atodiad 2).

Gwnaed gwaith hyrwyddo gyda Chylch Trefnwyr Digwyddiadau'r Sir i gyfleu pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg wrth drefnu digwyddiadau cymunedol a rhannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i weithredu'n ddwyieithog.

Mae'r marchnadoedd sirol yn denu nifer uchel o gwsmeriaid lleol ac ymwelwyr, a chyda nifer ohonynt yn fusnesau cynhenid o'r sir, mae cyfle euraidd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Dechreuwyd ar ymgyrch 'Ein Cynnyrch, Ein Hiaith' yn ystod y flwyddyn, gyda phosteri'n cael eu harddangos gan stondinwyr i annog cwsmeriaid i siarad Cymraeg. Rydym yn gobeithio ehangu'r ymgyrch hon yn ystod 2017-18 er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn gweld a chlywed yr iaith yn ein marchnadoedd.

Datblygiad arall sylweddol a welwyd eleni oedd llunio [Strategaeth Hybu](#) Cyngor Sir Gâr. Er bod gwaith wedi digwydd eisoes yn dilyn canlyniadau diwethaf y Cyfrifiad, rhoddodd yr her a osodwyd gan y Safonau hybu ffocws newydd i'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn y sir. Datblygwyd y Strategaeth hybu gan y Panel Ymgynghorol a'r Fforwm Sirol ac mae'r partïon oll wedi cytuno i weithio at y weledigaeth o adfer y Gymraeg yn brif iaith y Sir. Derbyniwyd y Strategaeth gan y Bwrdd Gweithredol ac fe'i cyhoeddwyd ar ein gwefan corfforaethol, ac ar ben hynny cychwynwyd ar waith a ddeilliodd o'r Strategaeth honno drwy gyfrwng y Fforwm Sirol. Adnabuwyd bod angen darlun mwy cyflawn o weithgarwch hybu'r Gymraeg yn y sir, ac aed ati i gomisiynu darn o waith ymchwil i'r perwyl hwn. Cylchredwyd y ddogfen i bartneriaid y Fforwm Sirol ac fe fydd y ddogfen hon yn declyn defnyddiol wrth gynllunio gwaith drwy'r fforwm sirol yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi'r ddogfen ar y wefan cyn hir. Wrth lunio'r Strategaeth hybu, adnabuwyd hefyd yr angen i ganfod dangosyddion mwy ystyrlon ar gyfer mesur llwyddiant y Strategaeth Hybu. Gwnaed gwaith cychwynnol o ganfod dangosyddion a fyddai'n mesur defnydd o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ond erys gwaith i'w wneud ar hyn cyn y bydd modd ei ymgorffori i Gynlluniau gweithredu'r Strategaeth Hybu'r dyfodol.

Wrth edrych ar godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd fel rhan o'r gwaith ar y Strategaeth Hybu, gweithredwyd ar yr angen i greu cronfa sirol o ddeunyddiau ymwybyddiaeth iaith, a fyddai'n cysoni'r negeseuon y mae'r mudiadau i gyd yn cyfleu. Gwnaed cronfa electroneg ar Google drive a'i rannu gyda'r holl fudiadau sy'n hyrwyddo'r iaith yn y sir. Er mwyn cychwyn ar godi ymwybyddiaeth o fewn y sir o fanteision dwyieithrwydd, dyluniwyd ac argraffwyd llyfryn cynhwysfawr sy'n hyrwyddo manteision addysg Gymraeg ac yn nodi'r llwybr tuag at ddwyieithrwydd. (gweler atodiad 5). Deilliodd y gwaith hwn o'r Fforwm Sirol ac fe gafodd y partneriaid i gyd fewnbwn i gynnwys y llyfryn. Yn ystod 2017-18, fe fydd y llyfryn hwn yn cael ei ddsbarthu'n strategol i gyd-fynd gyda chynlluniau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Yn dilyn y gwaith a wnaed ar gasglu data ar gyfer yr awdit sgiliau iaith, adnabuwyd potensial i wneud gwaith mwy dwys i symud staff ar hyd y continwmm iaith. Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid i benodi aelod o staff i weithio'n benodol ar deilwra darpariaeth i unigolion ac i gydlynu rhwng y darparwyr Cymraeg i Oedolion a'n staff. Bydd y swyddog yn cychwyn yn y flwyddyn ariannol nesaf a bydd yn gweithio yn nhim Dysgu a Datblygu'r Cyngor.

Mae hyfforddiant recriwtio'n ddiogel yn cael ei ddarparu i unrhyw reolwyr sy'n gyfrifol am y broses recriwtio, ynghyd â Chynghorwyr sy'n eistedd ar banel penodi. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cydweithio â chwmni hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y sir er mwyn ei gefnogi i ddilyn y cymhwyster o ran hyfforddiant recriwtio, fel bod modd hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn fewnol. Byddwn yn monitro'r niferoedd sy'n dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn annog mwy o bobl i ddilyn.

Gwnaed gwaith datblygu yn ystod 2016-17 gydag Arweinwyr iaith yr Adran Hamdden. Bu'r criw'n cwrdd yn fisol gan symud gwaith yn ei flaen yn gyson ar sicrhau cysondeb yn nwyieithrwydd gweledol eu hadeiladau drwy gyfrwng rhestrau gwirio. Cysonwyd a chywirwyd holl arwyddion

dwyieithog parhaol a dros dro'r adran, a'u harbed yn hwylus at ddefnydd y dyfodol, a gwnaed gwaith i sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth ar gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Hyfforddwyd Arweinwyr iaith newydd ar gyfer yr Adran Amgylchedd a fydd yn dechrau ar eu gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Bwriwyd ati, hefyd i wneud gwaith hybu ychwanegol nad oedd yn deillio'n union o'r Strategaeth Hybu na'r Fforwm Sirol, ond oedd yn ffitio i flaenoriaethau'r Strategaeth, sef hybu busnesau i ddefnyddio Cymraeg o fewn y Sir a hybu dysgwyr i groesi'r bont at ruglder. Trefnwyd digwyddiad yn Llanelli gan y Tîm Datblygu Busnes o fewn yr adran Adfywio i ddod a busnesau amrywiol ynghyd i drafod y potensial o weithio'n fwy dwyieithog a dosbarthwyd deunyddiau a chyngor y Comisiynydd, y Cyngor, a'r Fenter Iaith. Trefnwyd, hefyd, ar y cyd gyda Menter Gorllewin Sir Gâr, glwb newydd i ddysgwyr yn yr Atom yng Nghaerfyrddin, i ddod a dysgwyr ynghyd i gael cyfle i glywed ac i ddefnyddio Cymraeg yn anffurfiol (gw. Atodiad 2). Anogwyd nifer o staff o fewn y Cyngor hefyd i fynychu'r clwb. Roedd y niferoedd yn galonogol dros ben, ac fe fydd angen buddsoddi egni yn y clwb hwn i'w barhau i'r dyfodol. Byddai'n beth da ceisio ei ddyblygu mewn ardaloedd eraill yn ystod y flwyddyn 2017-18 hefyd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth wedi gweithio'n agos â holl adrannau'r cyngor i gynnig cefnogaeth ac arweiniad ond hefyd i fonitro cydymffurfiaeth. Un enghraifft o'r gwaith yw'r awdit Safonau a wnaed gydag Uwch Reolwyr o'r Adran Dai. Cynhaliwyd cyfarfod unigol gyda'r uwch reolwyr er mwyn mapio'r Safonau, y lefelau o gydymffurfiaeth ac er mwyn edrych ar gyfleoedd datblygu at y dyfodol. Roedd canlyniadau'r cyfarfodydd yn bositif a chyflwynwyd y wybodaeth yn ôl i'r Pennaeth Gwasanaeth gydag argymhellion gweithredu. Penodwyd un o'r rheolwyr yn Arweinydd y Gymraeg a bydd yr isadran yn dilyn hyfforddiant 'Arweinwyr Iaith' yn ystod 2017-18. Un o'r meysydd amlygwyd gan y rheolwyr oedd ei bod yn anodd rhyddhau staff ar gyfer gwersi dysgu Cymraeg yn y gweithle, gan fod canran uchel ohonynt yn darparu gwasanaethau llinell flaen. O ganlyniad felly, rydym wedi sefydlu cwrs penodol i'r isadran yn eu prif swyddfa ym Mhorth y Dwyrain, a bydd y cwrs hefyd yn cael ei ddarparu yng Nghaerfyrddin a Rhydaman a bydd y cynnwys wedi ei deilwra i'r maes gwasanaeth.

Yn yr un modd, mae cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau gyda chydweithwyr Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau cynnydd yn unol â'r Safonau ac er mwyn derbyn adborth rheolaidd o ran gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae'r isadran Adnoddau Dynol yn monitro'r prosesau recriwtio ac yn cefnogi rheolwyr o ran cynnal asesiadau iaith swyddi ac maent hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth i holl staff y cyngor. Byddwn yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2017-18.

Mae'r Adran Cymunedau hefyd wedi penodi Arweinydd Iaith ar yr uwch dîm rheoli, er mwyn arwain ar y Fframwaith Mwy na Geiriau a sicrhau y gwneir cynnydd wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn y maes gofal. Yn ystod y flwyddyn, mae'r gweithgor adrannol wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod meysydd megis cynllunio gweithlu, comisiynu gwasanaethau a hyfforddiant staff. Yn dilyn derbyn canlyniadau'r awdit sgiliau iaith, sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i edrych ar y canlyniadau yng nghydestun nifer y cleientiaid sy'n derbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol. Bydd canlyniadau'r gwaith hynny yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Cymunedau a'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod 2017-18.

Isod, ceir rhestr o'r atodiadau sy'n sail tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad -

Atodiad 1: Canllaw Ysgrifennu'n Gymraeg a'ch Cyfrifiadur

Atodiad 2: Cynllun Cyfathrebu

Atodiad 3: Deunyddiau'r fewnrwyd (enghraifft cadeirio cyfarfodydd)

Atodiad 4: Poster argraffwyr

Atodiad 5: Taflen hyrwyddo dwyieithrwydd

Atodiad 6: Cwynion a dderbyniwyd

Atodiad 7: Hyfforddiant a ddarparwyd

Atodiad 8: Canlyniadau'r awdit sgiliau Iaith i staff

Mawr obeithiaf fod yr Adroddiad yn dystiolaeth o ymrwymiad y cyngor i wireddu'r Safonau. Rhydd groeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau yn dilyn darllen yr adroddiad.

Cofion,

Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths

Aelod Portffolio dros y Gymraeg

Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gâr

Dosbarth o Safon: Cyflenwi Gwasanaethau

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu 16-17	Statws a thystiolaeth
1	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau gwybodaeth yn yr e-fodiwl anwytho • Cydweithio gyda Dysgu a Datblygu ac Optimwm • Cydweithio gyda'r Swyddogion Cefnogi Busnes Adrannol i godi ymwybyddiaeth ac i fonitro cynnydd • Dulliau monitro a gwirio i'w trafod gyda'r Gweithgor Staff 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth gyffredinol am ofynion y Safonau wedi'i chynnwys yn yr e-fodiwl anwytho a manylder gofynion y Safonau wedi'i gynnwys yn yr e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith. • Datblygu rôl yr Arweinwyr Iaith i gynnwys gwaith monitro a gwirio. • Yr Adrannau yn parhau i weithredu a chynnal y safon.
4	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler uchod • Cydweithio gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau i adnabod adrannau sy'n defnyddio cylchlythyrau i sicrhau eu bod yn ddwyieithog ac i gynnig cynnwys am y Safonau 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler uchod • Gwiriwyd cylchlythyrau adrannau
5	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	Edrych ar opsiynau o ran pwyntiau mynediad i ddewis iaith er mwyn sicrhau cofnod cywir (mewn cronfeydd data a sefydlwyd cyn y Safonau)	Ein cyngor i adrannau yw darparu fersiynau dwyieithog o ohebiaeth. Yn yr enghreifftiau prin lle mae gohebiaeth cyson yn arwain at gofnod iaith, mae systemau gan yr adrannau unigol.

6	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	Gweler uchod	
7	Rhaid ichi ddatgan - (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen canllawiau cyhoeddi • Rhannu'r canllaw yn unol â'r cynllun cyfathrebu • Trafod gyda'r dylunwyr graffeg / argraffu i osod datganiad wrth i adrannau archebu papur pennawd o'r newydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhawyd • Cwblhawyd • Cwblhawyd
8	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau gwybodaeth yn yr e-fodiwl ymwybyddiaeth Iaith • Sesiwn anwytho – sut i ateb y ffôn – angen diweddarau • Trafod gwaith cwmni Optimwm gyda'r tîm Dysgu a Datblygu • Dulliau monitro a gwirio i'w trafod gyda'r Gweithgor Staff 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler Uchod • Gweler uchod • Cyflwyniad i Adrannau Gwasanaethau Cwsmeriaid • Darparwyd sgrïpt ffonetig i weithwyr yn ein llyfrgelloedd ar sut i gyfarch yn Gymraeg • Crëwyd deunyddiau cynorthwyol yn cynnwys sgrïptiau a chlipiau sain ar gyfer y fewnwyd

9	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Gweler uchod	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler Uchod
10	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).	Gweler Uchod <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn yr asesiad sgiliau, diweddarau cofnod sgiliau iaith yn y llyfr cyfeiriadau e-bost (outlook). Dilyn lan gyda'r isadran Technoleg Gwybodaeth. • Cadw llygad ar ddatblygiadau Microsoft Office 365 	
12	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim angen gweithredu	
13	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Dim angen gweithredu	
14	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal ymgyrch farchnata 'Pa bynnag ffordd...' i hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg • Cynnal ymgyrch benodol drwy 	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhawyd • Gwiriwyd deunyddiau marchnata gwasanaethau'r Ganolfan Gwsmeriaid i

	Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Newyddion Sir Gâr i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor	sicrhau cydymffurfiaeth
15	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Tîm Polisi i siarad â Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid am safon 15	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd
16	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	Cynnwys yn y Canllawiau 'Defnyddio'r Gymraeg ar y Ffôn'	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhawyd
17	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Dim angen gweithredu	
18	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy	<ul style="list-style-type: none"> Diweddarau gwybodaeth yn yr e-fodiwl ymwybyddiaeth laith Sesiwn anwytho – sut i ateb y ffôn – angen diweddarau Diweddarau cofnod ieithyddol staff ar Outlook 	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth gyffredinol am ofynion y Safonau wedi'i chynnwys yn yr e-fodiwl anwytho a manylder gofynion y Safonau wedi'i gynnwys yn yr e-fodiwl Ymwybyddiaeth laith.

	drosgrwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).		
20	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	Gweler uchod	
21	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyh yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Gweler uchod	
22	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	Gweler uchod	
24	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Gweithgor Staff o ran monitro hyn • Darparu geiriad ar y fewnryd o ran gwahodd unigolion i gyfarfodydd 	<ul style="list-style-type: none"> • Crëwyd deunyddiau cynorthwyol sy'n darparu geiriad am wahodd personau i gyfarfod. Maent wedi cael eu gosod ar y fewnryd
24A	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	Cwblhawyd

	fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).		
26	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon y safon at yr adrannau sy'n dod o dan diffiniad llesiant – Adran Cymunedau a'r isadran Gwasanaethau Plant • Trafod cyfieithu Saesneg i'r Gymraeg gyda'r Uned Gyfieithu 	Cwblhawyd
26A	Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod- (a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	<ul style="list-style-type: none"> • Anfon y safon at yr adrannau sy'n dod o dan diffiniad llesiant – Adran Cymunedau a'r isadran Gwasanaethau Plant • Trafod gyda Chyfarwyddwr yr Adran Gymunedau • Trafod gyda'r Rheolwr Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Rheolwr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth 	Cwblhawyd
27	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i	Ystyried y dull gorau o fonitro	

	bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.		
27A	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	Ystyried y dull gorau o fonitro	
27CH	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	<ul style="list-style-type: none"> • Dilyn gweithdrefn herio ac apelio • Yn dilyn y penderfyniad, hysbysu staff drwy e Gair / Y Gair o'r drefn 	Yn dilyn herio'r safon, dyfarnodd y Comisiynydd bod y gofyniad ar y Cyngor i gydymffurfio â'r safon yn afresymol neu'n anghymesur ar hyn o bryd. Disodlwyd safon 27CH gyda safon 27D.
27D	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os		Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio terfynol wrth y Comisiynydd a oedd yn cynnwys safon 27D yn lle safon 27CH ar ôl herio'r safon.

	nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).		
28	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a (b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	<ul style="list-style-type: none"> • Dilyn gweithdrefn herio ac apelio • Yn dilyn y penderfyniad, hysbysu staff drwy e Gair / Y Gair o'r drefn 	Yn dilyn herio'r safon, dyfarnodd y Comisiynydd bod y gofyniad ar y Cyngor i gydymffurfio â'r safon yn afresymol neu'n anghymesur ar hyn o bryd. Disodlwyd safon 28 gyda safon 29 a 29A.
29	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) hysbysu'r unigolyn (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.		Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio terfynol wrth y Comisiynydd a oedd yn cynnwys safon 29 yn lle safon 28 ar ôl herio'r safon.
29A	Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod - (a) os ydych wedi		Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio terfynol wrth y Comisiynydd a oedd yn

	gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod, (b) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddiwyd, ac (c) os oes o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.		cynnwys safon 29A yn lle safon 28 ar ôl herio'r safon.
30	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith monitro i'w gadarnhau • Atgoffa staff drwy'r cynllun cyfathrebu 	Canllawiau wedi cael eu hanfon a'u cynnwys ar y fewnrwyd at ddefnydd staff
31	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith monitro i'w gadarnhau • Atgoffa staff drwy'r cynllun cyfathrebu • Cynnwys geiriad yn y templedi ar y fewnrwyd 	Canllawiau wedi cael eu hanfon a'u cynnwys ar y fewnrwyd at ddefnydd staff Crëwyd templed e-bost trefnu cyfarfod
32	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith monitro i'w gadarnhau • Atgoffa staff drwy'r cynllun cyfathrebu • Cynnwys geiriad yn y templedi ar y fewnrwyd 	Canllawiau wedi cael eu hanfon a'u cynnwys ar y fewnrwyd at ddefnydd staff

	cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).		
33	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg - (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffa staff drwy'r cynllun cyfathrebu • Cynnwys geiriad yn y templedi ar y fewnrwyd 	Canllawiau wedi cael eu hanfon a'u cynnwys ar y fewnrwyd at ddefnydd staff
34	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Atgoffa staff drwy'r cynllun cyfathrebu • Cynnwys geiriad yn y templedi ar y fewnrwyd 	Gweler uchod
35	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus • Creu taflen Caffael, Comisiynu a Dyrannu Grantiau • Llunio pecyn o ganllawiau i gyrrff / sefydliadau sy'n derbyn grantiau 	Cwblhawyd Mynychwyd cyfarfod gwybodaeth gyda'r Comisiynydd a chwmni cyfreithiol Eversheds i dderbyn gwybodaeth ar gaffael. Dosbarthwyd Canllaw Caffael y Comisiynydd o fewn y Cyngor. Panel grantiau digwyddiadau wedi cael ei sefydlu ac yn gosod gofynion ieithyddol.

			Cynhaliwyd cynhadledd ar gyfer Trefnwyr Digwyddiadau yn y sir a darparwyd gwybodaeth ar hyrwyddo'r Gymraeg
36	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus • Llunio pecyn o ganllawiau i gyrrff / sefydliadau sy'n derbyn grantiau 	<p>Cwblhawyd</p> <p>Panel grantiau digwyddiadau wedi cael ei sefydlu ac yn gosod gofynion ieithyddol.</p> <p>Cynhaliwyd cynhadledd ar gyfer Trefnwyr Digwyddiadau yn y sir a darparwyd gwybodaeth ar hyrwyddo'r Gymraeg</p>
37	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau am gynnwys Canllaw Dylunio a Chyhoeddi sy'n cynnwys gwybodaeth am beth sydd angen cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog a gwybodaeth ymarferol ar sut i gyhoeddi yn ddwyieithog. • Trafod gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau am gynnwys ar Ganllawiau Dylunio cyffredinol y Cyngor (Brand Guidelines). • Creu poster i'w arddangos ger holl argraffwyr y Cyngor. • Cysylltu â'r isadran Technoleg Gwybodaeth am restr o leoliadau'r argraffwyr. 	<p>Cydweithiwyd gyda'r Adran Gyfathrebu ar greu'r Canllaw Dylunio a Chyhoeddi dwyieithog.</p> <p>Crëwyd posteri i'w harddangos ger holl argraffwyr y Cyngor.</p>

38	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Creu taflen Canllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus	Cwblhawyd
41	<p>Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg -</p> <p>(a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet;</p> <p>(b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p><input type="checkbox"/> papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p><input type="checkbox"/> papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Cynnal ymarfer gwirio yn dilyn cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol.	Monitro cyson drwy'r Uned Gwasanaethau Democrataidd
42	Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
43	Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd

44	<p>Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg -</p> <p>(a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol;</p> <p>(b) canllawiau a chodau ymarfer;</p> <p>(c) papurau ymgynghori.</p>	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
45	Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi • Monitro gwybodaeth a gyhoeddir 	Cwblhawyd
46	Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un pryd.	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro cynnwys y dudalen Newyddion • Cysylltu â'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu 	Cwblhawyd
47	<p>Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg -</p> <p>(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu</p> <p>(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.</p>	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd

48	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
49	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi • Cynnwys geiriad i staff yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi • Darparu geiriad i staff yn y Canllaw Gohebu. 	Cwblhawyd
50	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
50A	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
50B	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd

	â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).		
51	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
52	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio â'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu i fonitro cynnwys gwefannau • Atgoffa staff drwy'r hyfforddiant Umbraco 	Yn digwydd
55	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu'r safonau 52-59 gyda'r adrannau unigol • Sicrhau bod y wefan a'i diweddariadau'n Gymraeg • Creu taflen Canllawiau Technoleg a'r Gymraeg 	Cwblhawyd
56	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Technoleg a'r Gymraeg	Cwblhawyd
57	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi	Creu taflen Canllawiau Technoleg a'r Gymraeg	Mae'r safonau wedi cael eu cynnwys yn y polisi 'Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol'.

	beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.		
58	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Technoleg a'r Gymraeg • Sicrhau bod y tîm Marchnata a'r Cyfryngau yn cynnwys Safon 57 a 58 yn rhan o'r polisi 'Defnydd Cyfryngau Cymdeithasol' 	Mae'r safonau wedi cael eu cynnwys yn y polisi 'Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol'.
59	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Creu taflen Canllawiau Technoleg a'r Gymraeg	Mae'r safonau wedi cael eu cynnwys yn y polisi 'Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol'.
60	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.	Adnabod yr adrannau sy'n defnyddio peiriannau hunanwasanaeth (Hamdden, Yr Hwb) – trafod gyda'r Gweithgor Staff Cynnwys yn y daflen Comisiynu, Caffael a Grantiau	Cwblhawyd Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
61	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi Cynnwys yn e-Gair / Y Gair	Cwblhawyd Cwblhawyd Lluniwyd a darparwyd templed rhestr wirio ar gyfer staff gwasanaethau cwsmeriaid ac arweinwyr iaith yr adran hamdden a diwylliant i wirio arwyddion a phosteri

62	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi • Gwirio trefniadau caffael Arwyddion fesul adran – ymarfer drwy'r Gweithgor Staff 14 Mehefin 	<p>Cwblhawyd</p> <p>Wedi tynnu sylw staff at y safon yng nghylchlythyr y staff.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ail edrych ar rôl y Gweithgor staff.</p>
63	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
64	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taenlen o'r prif dderbynfeydd a rhannu'r wybodaeth gyda'r Gweithgor Staff • Cyfathrebu'r Safon gyda Phennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid 	<p>Staff Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi derbyn cyflwyniad ar y safonau i sicrhau eu bod yn ymwybodol ac i drafod unrhyw rwystrau.</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Darparwyd hyfforddiant drwy gwmni Sglein ar ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog i ddau grŵp o staff Hamdden ac yng nghynhadledd blynyddol staff yr adran.</p> <p>Dosbarthwyd deunydd iaith Gwaith yn sioeau teithiol staff.</p>
67	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler Safon 64 • Drafftio e-bost at yr holl staff i gyfathrebu'r safon gan gofio anerchiadau cyhoeddus, Safon 87 • Dosbarthu'r uchod yng nghynhadledd staff Hamdden ac i'r 	<p>Cwblhawyd</p> <p>Crëwyd arwydd 'Croeso i chi siarad Cymraeg' i'w harddangos mewn derbynfeydd</p>

		<p>Arweinwyr iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthu deunyddiau iaith gwaith yn dilyn yr e-bost uchod 	
68	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	<ul style="list-style-type: none"> • Tîm Polisi i gyfathrebu gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid • Gweler uchod 	Cwblhawyd
69	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi • Gweler 61 	Cwblhawyd
70	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd
71	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendo a Chytundebu. • Trefnu cyfarfod â Rheolwr Datblygu Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru er mwyn cyfathrebu'r gofynion sydd ar drydydd parti. 	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.

72	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendro a Chytundebu.	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
72A	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendro a Chytundebu.	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
73	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	<ul style="list-style-type: none"> • Dilyn gweithdrefn herio ac apelio • Yn dilyn y penderfyniad, hysbysu staff drwy e Gair / Y Gair o'r drefn 	Yn dilyn herio'r safon, dyfarnodd y Comisiynydd bod y gofyniad ar y Cyngor i gydymffurfio â'r safon yn afresymol neu'n anghymesur ar hyn o bryd. Disodlwyd safon 73 gyda safon 74.
74	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn		Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio terfynol wrth y Comisiynydd a oedd yn cynnwys safon 74 yn lle safon 73 ar ôl herio'r safon.

	i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).		
75	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendo a Chytundebu. 	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
77	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Ailgyssylltu gyda'r Tîm Comisiynu o fewn Gofal Cymdeithasol er mwyn mynychu cyfarfod tîm • Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendo a Chytundebu. 	Cwblhawyd Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
77A	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendo a Chytundebu. 	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
79	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweild â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi - (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendo a Chytundebu. 	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.

	ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).		
80	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	Creu taflen Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendro a Chytundebu.	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
81	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i adnabod cyfleoedd ar y cyd gyda'r Uned Farchnata sut i hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg y Cyngor yn ystod y flwyddyn, e.e. Radio Sir Gâr, gwefannau'r Cyngor, - arhosfan bysys, - Newyddion Sir Gâr - Marchnadoedd <p>Ystyried rôl y Fforwm Sirol a'r potensial drwy'r Strategaeth Hybu</p>	<p>Cynhaliwyd ymgyrchoedd i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y cyngor</p> <ul style="list-style-type: none"> Arosfannau bysys (gweler atodiad 2) Newyddion Sir Gâr Ymgyrch Marchnadoedd 'Ein Cynnyrch Ein Hiaith' <p>Cafwyd trafodaethau cychwynol fel rhan o lunio'r Strategaeth ond bydd angen rhoi mwy o sylw yn 17/18.</p>
82	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	Cwblhawyd

	Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.		
83	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi • Cynnwys yr wybodaeth yng Nghanllawiau Brand Corfforaethol (Corporate Brand Guidelines) 	Cwblhawyd
84	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio: 0 pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod yn fewnol a drafftio meini prawf a fydd yn gymorth i asesu'r angen am gwrs Cymraeg • Cynnal gweithdy gyda swyddogion y Cyngor sydd yn cynnal cyrsiau yn gyson i drafod datblygu meini prawf ar gyfer asesu. • Cynnal darn o waith penodol gyda'r uned sy'n trefnu hyfforddiant i Lywodraethwyr ar ddarparu hyfforddiant • Llunio rhestr o hyfforddwyr dwyieithog 	<p>Cydweithio gyda chwmni Balanceability i ddarparu hyfforddiant i hyfforddwyr gan ddefnyddio cyfarpar cyfieithu</p> <p>Cydweithio gyda'r Adran Dai i ddarparu Hyfforddiant Iandlordiaid cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog</p> <p>Adran Addysg wedi cynnal awdit sgiliau iaith gyda Llywodraethwyr ysgolion</p>
86	Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal darn o waith penodol gyda'r uned sy'n trefnu hyfforddiant Lywodraethwyr i asesu anghenion ieithyddol hyfforddiant • Gweler 84. • Cyfathrebu'r angen i gynnwys asesiadau ar wefan y Cyngor. • Trafod gyda'r tîm Marchnata a'r 	Adran Addysg wedi cynnal awdit sgiliau iaith gyda Llywodraethwyr ysgolion

		Cyfryngau i greu lleoliad ar gyfer asesiadau, ayb ar dudalen laith Gymraeg y Cyngor. Trafod ymhellach brandio'r cynnwys.	
87	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	<ul style="list-style-type: none"> Tynnu sylw Arweinwyr laith Hamdden at y Safon Gweler 67 	Cwblhawyd
155	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor. Cysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau i Gwsmeriaid i esbonio lle gellir dod o hyd i'r wefan. 	Cwblhawyd (b) Gwnaed cyflwyniad i'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y Safonau gan gynnwys tynnu sylw at y dogfennau ar y we. Anfonwyd dolenn i'r staff yn dilyn y cyfarfod i'w cynorthwyo gyda hyn.
156	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod gyda'r Rheolwr sydd â chyfrifoldeb am gwynion Trafod yn fewnol adolygu camau'r gweithdrefn gwyno i sicrhau atebolrwydd Gwirio dolenni ar y wefan gorfforaethol 	Cwblhawyd

	<p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
157	<p>Rhaid ichi –</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer</p> <p>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<p>Trafod yn fewnol ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwylio yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.</p>	<p>Cytunwyd ar fformat Cynllun Gweithredu blynyddol yn ogystal sy'n cynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwylio.</p>
158	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech</p>	<p>Trafod yn fewnol (Gweithgor staff) ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwylio yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.</p>	<p>Cytunwyd ar ffordd i adrodd sy'n cynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwylio sef yr adroddiad blynyddol.</p>

	<p>o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
159	<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	Cyhoeddi Cynllun Gweithredu	Cwblhawyd
160	<p>Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	<p>Darparwyd gwybodaeth i'r Comisiynydd yn unol â'r ymholiadau.</p> <p>Ymchwiliad am Wersi Nofio</p> <p>Adroddiad Ymchwil gan Gwmni Iaith ar ran y Comisiynydd am hybu gwasanaethau.</p>

Dosbarth o Safon: Llunio Polisi

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu	Statws a thystiolaeth
88	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth fewnol ar yr angen i lunio canllawiau arbenigol ar effaith polisiau ar y Gymraeg. • Ystyried y posibilrwydd o greu Canllawiau ar y cyd â Cheredigion a Gwynedd. • Cynnwys yr iaith Gymraeg yn rhan o broses Asesu Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. • Trafodaeth bellach ar yr angen i gael cyngor arbenigol ar effaith penderfyniadau neu bolisiau ar y Gymraeg. • Cyfarfod ar 22 Mawrth i drafod asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg, Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 	<p>Mae asesiad effaith integredig wedi cael ei baratoi a'i gytuno sy'n dwyn ynghyd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg, deddf amgylchedd a confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant. Mae'r asesiad yn cynnwys cwestiynau penodol o ran y Gymraeg ac effaith unrhyw bolisi ar allu siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith a sut yr ydym ni'n hyrwyddo'r Gymraeg.</p> <p>Mae canllawiau ar yr asesiad integredig wedi cael eu creu gydag adran benodol am y Gymraeg.</p> <p>Cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda'r swyddogion sy'n arwain ar y meysydd hyn. Wedi derbyn adborth ar yr asesiad drafft oddi wrth y swyddogion perthnasol.</p>

89	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a)cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b)peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Gweler safon 88	Gweler uchod
90	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Gweler 88	Gweler uchod
91	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y	Trafodaeth gychwynol o fewn y Tîm Polisi a Phartneriaeth.	Dau gwestiwn wedi'i cynnwys yn nogfennau ymgynghori'r Cyngor. Sicrhau bod y cwestiynau yn cael eu cynnwys a'u

	<p>byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		cyfathrebu gyda phawb sy'n cynnal ymgynghoriad.
92	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	Gweler 91	
93	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	Gweler 91	

<p>94</p>	<p>Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol</p>	<p>Trafod yn fewnol sut i fesur effaith.</p> <p>Trafod gydag Awdurdodau Lleol eraill y posibilrwydd o gydweithio ar ddatblygu 'toolkit' i fesur effaith polisi neu benderfyniadau ar y Gymraeg.</p> <p>Trafod gyda'r Uned Grantiau Ewropeaidd</p>	<p>Parhau i weithio ar hyn</p>
------------------	---	---	--------------------------------

	<p>na'r Saesneg; (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		
95	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar –</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Cynnwys y wybodaeth yn y Canllaw Comisiynu, Grantiau a Chaffael (ac o ran astudiaethau dichonolrwydd)</p>	<p>Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.</p>
96	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r</p>	<p>Gweler 95</p>	<p>Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.</p>

	Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.		
97	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Gweler 95	Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.
161	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Cyhoeddi dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor. Cysylltu gyda'r Adran Cwsmeriaid i sicrhau bod staff yn ymwybodol o leoliad y ddogfen ar y wefan.	Cwblhawyd
162	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â	Edrych ar wefan lleol-i o ran cynnig sylwadau	Mae'r wybodaeth o ran y weithdrefn Gwynion yn fyw ar ein gwefan.

	<p>chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Trafod gyda'r tîm cwynion	
163	<p>Rhaid ichi –</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Trafod yn fewnol ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.	Cytunwyd ar fformat Cynllun Gweithredu blynyddol yn ogystal sy'n cynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo.
164	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio</p>	Trafod yn fewnol ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a	Cytunwyd ar ffordd i adrodd sy'n cynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a

	<p>â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoedduswydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael –</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	goruchwyllo yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.	goruchwyllo sef yr adroddiad blynyddol.
165	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Cyhoeddi Cynllun Gweithredu	Cwblhawyd
166	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	

Dosbarth o Safon: Gweithredu

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu Polisi	Statws a thystiolaeth
98	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod yn fewnol a rhoi sylw pellach i ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. • Ystyried cynnwys Safonau 99 – 144 yn y polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. • Drafftio polisi i'w gyflwyno i'r Panel Ymgynghorol a'r Gweithgor staff • Uwch swyddogion i graffu ar y ddogfen yn fewnol • Tîm Rheoli Corfforaethol a Bwrdd Gweithredol 	Cyhoeddwyd polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar ôl cael ei gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor Sir. Hyrwyddwyd nifer o elfennau o'r polisi defnydd mewnol ond ni hyrwyddwyd y polisi ei hun.
99	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn am ddiweddariad gan yr isadran Adnoddau Dynol o ran Safonau 99-119, 127-131 a 136-140. 	Dogfennau safonol ar gael yn ddwyieithog
100	Rhaid ichi - (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i	Fel uchod	Dogfennau safonol ar gael yn ddwyieithog

	<p>gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a</p> <p>(b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, ddarparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.</p>		
101	<p>Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.</p>	Fel uchod	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennaeth safonol sy'n cynnwys hysbysebu, ceisiadau a chadarnhad o ddigwyddiadau dysgu ar gael yn ddwyieithog. • Ar gael ar fewnwyd y Cyngor.
102	<p>Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.</p>	Fel uchod	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau safonol ar gael yn ddwyieithog • Ar gael ar fewnwyd y Cyngor
103	<p>Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.</p>	<p>Gofyn am ddiweddariad gan y tîm Rheoli Perfformiad a Llywodraethu a Dysgu a Datblygu</p>	<p>Mae Dysgu a Datblygu wedi trefnu bod yr holl rhaglenni gweithredol [o 01.04.16] sy'n amlinellu a chofnodi datblygiad staff ar gael yn Gymraeg. Mae rhain wedi cael eu cynnwys yn system Adnoddau Dynol /Cyflogres [ResourceLink] - Modiwl Hyfforddiant, a mae</p>

			strwythurau adrodd [Cognos] wedi cael eu diweddarau i ganiatáu aelodau o staff i ddewis dogfennau sy'n cofnodi eu datblygiad [Proffiliau Hyfforddi] yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae rhain yn annatod i gynlluniau gyrfa staff.
105	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Adran Adnoddau Dynol	Polisiâu cyflogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar fewnwyd y Cyngor.
106	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Adran Adnoddau Dynol	Polisiâu ar gyfer lles gweithwyr ar gael Yn Gymraeg a Saesneg ar fewnwyd y Cyngor.
107	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Adran Adnoddau Dynol	Polisiâu cyflogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar fewnwyd y Cyngor.
108	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Dysgu a Datblygu	Polisiâu ar gael yn ddwyieithog ac ar fewnwyd y Cyngor.
109	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Adran Adnoddau Dynol	Polisiâu cyflogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar fewnwyd y Cyngor.
110	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Adran Adnoddau Dynol	Polisiâu cyflogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar fewnwyd y Cyngor.

111	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Adran Adnoddau Dynol	Polisiau cyflogaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar fewnwyd y Cyngor.
112	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff – (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gwyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	Trafod gyda'r Adran Gwynion	
112A	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff – (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gwyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Adran Gwynion • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys ngweithdrefnau gwneud cwynion a'r pecyn anwytho. • Hysbysu rheolwyr a phob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	Gweithdrefnau cwyno yn cyrraedd y safon hon.
114	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi - (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Adran Gwynion • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys ngweithdrefnau gwneud cwynion a'r pecyn anwytho. • Hysbysu rheolwyr a phob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	Gweithdrefnau cwyno yn cyrraedd y safon hon. Cwblhawyd

	i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).		
115	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -</p> <p>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Adran Gwynion • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys ngweithdrefnau gwneud cwynion a'r pecyn anwytho. • Hysbysu rheolwyr a phob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	<p>Gweithdrefnau cwyno yn cyrraedd y safon hon.</p> <p>Cwblhawyd</p>
116	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys yng ngweithdrefnau disgyblu a'r pecyn anwytho. • Gofyn am ddiweddariad o ran y broses ddisgyblu • Hysbysebu rheolwyr a bob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	<p>Y broses ddisgyblu yn cyrraedd y safon hon.</p> <p>Cwblhawyd</p>
116A	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys yng ngweithdrefnau disgyblu a'r pecyn anwytho. 	<p>Y broses ddisgyblu yn cyrraedd y safon hon.</p>

	<p>disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a</p> <p>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gofyn am ddiweddariad o ran y broses ddisgyblu • Hysbysebu rheolwyr a bob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	Cwblhawyd
118	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi -</p> <p>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a</p> <p>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol;</p> <p>ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys yng ngweithdrefnau disgyblu a'r pecyn anwytho. • Gofyn am ddiweddariad o ran y broses ddisgyblu • Hysbysebu rheolwyr a bob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	<p>Y broses ddisgyblu yn cyrraedd y safon hon.</p> <p>Cwblhawyd</p>
119	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Adnoddau Dynol i gynnwys yng ngweithdrefnau disgyblu a'r pecyn anwytho. • Gofyn am ddiweddariad o ran y broses ddisgyblu • Hysbysu rheolwyr a phob aelod o staff am yr hawl – cynnwys yn y polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol 	<p>Y broses ddisgyblu yn cyrraedd y safon hon.</p> <p>Cwblhawyd</p>

	(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.		
120	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio gyda'r adran TG ar y canllawiau cymorth i ysgrifennu'n Gymraeg a chadw golwg ar oblygiadau cyflwyno Windows 2013 • Cynnig yr esboniad i adrannau eraill sydd a chylchlythyron • Cynnwys yn y daflen Canllawiau Cymorth Ysgrifennu Cymraeg 	<p>Sicrhawyd bod y pecynnau iaith angenrheidiol yn cael eu dosbarthu wrth bod Windows 2013 yn cael ei gyflwyno i holl staff y cyngor.</p> <p>Cyhoeddwyd canllaw Ysgrifennu'n Gymraeg a'ch Cyfrifiadur a oedd yn cynnwys esboniad ar ddefnyddio rhyngwynebau Cymraeg a meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg.</p> <p>Tynnu sylw at y Canllaw uchod yn y cylchlythyr staff a mewn cyfarfodydd mewnol amrywiol</p>
122	<p>Rhaid ichi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun hafan eich mewnwyd ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnwyd) yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu a chadarnhau amserlen 	<p>Cwblhawyd. Mae'r fewnwyd yn hollol ddwyieithog.</p>

<p>123</p>	<p>Bob tro y byddwch yn cyhoeddi tudalen newydd neu'n diwygio tudalen ar eich mewnwyd, rhaid ichi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â thestun y dudalen honno.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu 	<p>Cwblhawyd. Mae'r fewnwyd yn hollol ddwyieithog.</p>
<p>124</p>	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu 	<p>Cwblhawyd. Mae'r fewnwyd yn hollol ddwyieithog.</p>
<p>125</p>	<p>Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau trosglwyddo adnoddau'r parth Cymraeg Bydd gwybodaeth ar gyfleoedd datblygu ar y fewnwyd newydd (Dysgu a Datblygu) Cyhoeddi canllaw cymorth ysgrifennu ar y fewnwyd 	<p>Cwblhawyd.</p> <p>Mae adnoddau'r parth bellach ar y fewnwyd.</p> <p>Ceir tudalen ar gyfleoedd dysgu Cymraeg ar y fewnwyd.</p> <p>Rhoddyd chwe chanllaw yn egluro gofynion y</p>

			<p>safonau ar y fewnrwyd newydd.</p> <p>Cywirwyd a chysonwyd arwyddion dros dro yr adran hamdden a'u cadw ar y cynllun ffeilio mewnol.</p>
126	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> Trafod gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau 	Cwblhawyd. Mae'r fewnrwyd yn hollol ddwyieithog.
127	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	<ul style="list-style-type: none"> Trafod gyda'r isadran Adnoddau Dynol yn ein cyfarfodydd rheolaidd Derbyn canlyniadau cyntaf yr awdit Cadarnhau trefniadau ar gyfer cynnal yr awdit ymhlith staff sydd heb gyswllt swyddfa Derbyn canlyniad yr awdit staff heb gyswllt swyddfa Sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i Outlook Sicrhau bod y tîm Dysgu a Datblygu yn derbyn y data ac yn ymateb drwy'r ddarpariaeth 	Derbyniwyd canlyniadau cyntaf yr awdit
130	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith -</p> <p>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a</p> <p>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Diweddarau darpariaeth gwersi Cymraeg y Cyngor gyda'r Adran Dysgu a Datblygu mapio darpariaeth bresennol, ailstrwythuro darpariaeth marchnata darpariaeth 	<p>Yn dilyn oedi gyda'r tendrau Cymraeg Gwaith lanswyd rhaglen newydd o gyrsiau dysgu Cymraeg yn unol â'r tendr a enillwyd.</p> <p>Marchnatwyd y ddarpariaeth yn helaeth a</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb i ganlyniad tendr yr Endid, i gynllunio darpariaeth • Cynnig cwrs datblygu sgiliau Cymraeg i reolwyr • Cynnig hyfforddiant i reolwyr ar y Strategaeth Sgiliau Iaith <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn canlyniadau cyntaf yr awdit sgiliau iaith • Sicrhau bod y tîm Dysgu a Datblygu yn derbyn y data ac yn ymateb drwy'r ddarpariaeth • Mae rhaglen o gyfleoedd dysgu yn cael ei datblygu i gynnig ystod o gyfleoedd. Bydd hyn mewn lle erbyn Medi 2016 	<p>gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o staff y cyngor a fynychodd gyrsiau.</p> <p>Gweler uchod</p> <p>Ni gynhaliwyd y cwrs yn y flwyddyn 2016/17.</p> <p>Cynhaliodd yr adran adnoddau dynol sesiynau briffio i reolwyr.</p> <p>Gweler uchod</p> <p>Penodwyd Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) a bydd yn dechrau ar 6 Gorffennaf er mwyn creu rhaglen integredig. Bydd y rhaglen hon yn ystyried canlyniadau'r awdit sgiliau iaith.</p> <p>Mae'r ystod o gyrsiau datblygu iaith wedi cynyddu. Mae nifer dda wedi mynychu'r cwrs Croeso i'r Gymraeg (lefel 1).</p> <p>Mae rhaglen dysgu Cymraeg yn cael ei ddatblygu ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.</p>
--	--	---	--

<p>131</p>	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.</p>	<p>Gweler uchod</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler uchod. Mae'r cyfleoedd i weithwyr fynychu hyfforddiant iaith Gymraeg pellach [am ddim] yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Gloywi iaith: Siarad A [wedi cynyddu nifer o fynychwyr o 5 i 7 ers 15-16]; ○ Gloywi iaith: Siarad B; ○ Gloywi Ysgrifennu: [wedi cynyddu mynychwyr o 3 i 10 ers 15-16]; ○ Sgiliau Mentora iaith Gymraeg [Nod y rhaglen hon yw cynyddu'r nifer o Fentoriaid iaith Gymraeg i gefnogi dysgwyr]; ○ Mae cyfres o ddsbarthiadau Cymraeg i Oedolion hefyd yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Canolradd 1 ○ Canolradd 2 ○ Mynediad 1 ○ Mynediad 2 ○ Sylfaen 1 ○ Sylfaen 2 <p>[ar gael ar fewnrwyd y Cyngor]</p>
-------------------	---	---------------------	--

			Mae darpariaeth dysgu 'Ysgol Haf' hefyd yn cefnogi'r safon hon.
132	<p>Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu -</p> <p>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);</p> <p>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;</p> <p>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu'r polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gweithle (S98) • Cydweithio gyda Dysgu a Datblygu ar yr e-fodiwl anwytho newydd gydag Optimwm • Parhau â'r drafodaeth ynglŷn â llunio modiwl Ymwybyddiaeth Iaith newydd yn dilyn ystyriaeth o gynnwys modiwl AWA* • Gofyn i Dysgu a Datblygu am amserlen ar fodiwl AWA • Darparu hyfforddiant ar ddyletswydd i ddarparu yn unol â'r Safonau i'r isadran Hamdden drwy Sglein • Yn dilyn yr hyfforddiant i'r Adran Hamdden, ystyried darpariaeth i adrannau eraill <p>* Mae modiwl newydd yn cael ei ddatblygu gan sefydliad partner o fewn Academi Cymru Gyfan / All Wales Academy [AWA] - Mae'r cwrs newydd 'Croeso i'r Gymraeg' yn cynnwys gwybodaeth am Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd yn unol â'r Safonau Iaith Gymraeg a dealltwriaeth o</p>	<p>Gweler uchod safon 98.</p> <p>Trefnwyd cynnwys gwybodaeth am y Safonau Iaith yn y modiwl anwytho corfforaethol.</p> <p>Datblygwyd modiwl Ymwybyddiaeth Iaith newydd i ymgorffori newidiadau'r Mesur Iaith ac egluro'r Safonau Iaith</p> <p>Darparwyd nifer o sesiynau hyfforddiant gan gwmni Sglein ynghyd â sesiwn yng nghynhadledd blynyddol yr adran.</p> <p>Ni ddilynwyd y trywydd hwn gydag AWA. Penderfynwyd cynnwys y cyfan yn ein modiwl corfforaethol.</p>

		<p>sut gall yr iaith Gymraeg cael ei defnyddio yn y gweithle.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cwrs Cymraeg lefel 1 ‘Croeso i’r Gymraeg’ ar gael i bob aelod o staff – mae pob aelod o staff sydd ddim yn cyrraedd lefel 1 yn cael eu blaenoriaethu er mwyn cwrdd â’r sgiliau lleiafswm angenrheidiol. ▪ Modiwlau e-ddysgu – Mae’n amlygu cyfrifoldebau sefydliadau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg a Saesneg ac yn ffurfio rhan o fodiwl dysgu ymgysylltu ag amrywiaeth. Bydd ymwybyddiaeth iaith Gymraeg yn ffurfio rhan o gyfres orfodol modiwlau dysgu i bob aelod o staff. ▪ Cwrs Mentora – cwrs sy’n helpu staff i fod yn fentoriaid er mwyn ymarfer gyda dysgwyr i roi cymorth ychwanegol. ▪ Gofal Cwsmer – yn cynnwys datblygu iaith sylfaenol. ▪ Cyrsiau Gloywi Iaith – niferoedd wedi cynyddu. ▪ Digwyddiadau / Rhaglenni dysgu a datblygu cyfredol yn parhau i godi ymwybyddiaeth o’r angen
--	--	---	---

			<p>am sensitifrwydd iaith – Cyfathrebu effeithiol, diogelu, dementia ac ymgysylltu ystyrlon.</p> <p>Fforymau Sirol ar gyfer Ymarferwyr Iechyd Meddwl cymeradwy, cyfnewid arferion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), DoLS ar gyfer Awdurdodau Rheoli, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a hyfforddiant Deddf Gallu Meddyliol i Ofalwyr Oedolion, hyfforddiant Taliadau Uniongyrchol.</p>
133	<p>Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarau e-fodiwl anwytho Ymwybyddiaeth Iaith • Cynnwys elfennau ymwybyddiaeth iaith yn yr e-fodiwl anwytho newydd • Ystyried cynnwys y taflenni canllaw yn y pecyn electroneg i gyflogeion newydd'. Trafod hyn gydag Adnoddau Dynol 	<p>Gweler safon 132</p> <p>Pecynnau recriwtio ac anwytho / pecynnau croeso ar gael yn ddwyieithog.</p>
134	<p>Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu geiriad a'i gynnwys yn y daflen Canllawiau Cymorth Ysgrifennu Cymraeg 	<p>Canllaw Cymorth Ysgrifennu Cymraeg wedi'i gwblhau.</p> <p>Tynnwyd sylw staff at yr angen i gynnwys logo siarad neu dysgu Cymraeg</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • Mapio'r Cymorth posib ar gyfer adnodd newydd ar y fewnrwyd (ystyried cynnwys gwefan Canolfan Bedwyr / Canolfan Peniarth) • Comisiynu/creu adnodd newydd i'r fewnrwyd • Cynnwys cyfeiriad at y canllawiau yn y polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gweithle • Trafod gyda TG o ran gosod datganiad am y Gymraeg ar bob templed e-bost 	<p>ar e-bost yng nghylchlythyr staff.</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Comisiynwyd Canolfan Peniarth i greu adnoddau cefnogi i'r fewnrwyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Penderfynwyd i beidio trafod gyda TG gan fod y trefniadau cyfredol o ran rhannu'r Canllawiau gyda staff yn gweithio'n dda.</p>
135	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi Swyddogion Cynnal Busnes (BSO) i wirio'r negeseuon allan o'r swyddfa, yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau • Cynnwys yn y daflen Canllawiau Cymorth Ysgrifennu Cymraeg • Cynnwys yn y polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gweithle • Ystyried y posibiliadau o gynhyrchu'r canllawiau ar ffurf posterï – cylchredeg drwy'r Gweithgor Staff • Gwirio gyda Adnoddau Dynol o ran enwau adrannau ac isadrannau 	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhawyd • Cwblhawyd • Mae'r geiriad wedi cael ei gynnwys yng Nghanllaw Defnydd E-bost yr adran TG hefyd • Argraffwyd posterï o'r canllawiau ac fe'i

			dosbarthwyd i'r Arweinwyr laith, ac mewn sioeau teithiol.
136	<p>Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys -</p> <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Adnoddau Dynol / Strategaeth Sgiliau laith • Mabwysiadwyd y Strategaeth Sgiliau laith ym mis Ionawr 2016 • Cylchredwyd canllawiau i bob rheolwr a phennaeth gwasanaeth ar recriwtio • Nodir bod pob swydd yn y cyngor yn cael ei hysbysebu ar lefel 1 o'r fframwaith asesu sgiliau fel lleiafswm • Monitro disgrifiadau swyddi • Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Adnoddau Dynol • Gwirio y ddolen o'r disgrifiadau swyddi i'r Strategaeth newydd • Trafod gydag Adnoddau Dynol o ran y gwaith monitro 	Cwblhawyd
136A	<p>Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi -</p> <p>(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Adnoddau Dynol / Strategaeth Sgiliau laith 	Cwblhawyd
137	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a</p>	Monitro cydymffurfedd	<p>Cwblhawyd</p> <p>Tudalen flaen o'r tudalennau swyddi ar</p>

	gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.		wefan y Cyngor yn dangos y testun canlynol: Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu'n Saesneg
137A	Os byddwch yn cyhoeddi - (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	Adran Adnoddau Dynol – gwirio deunydd esboniadol o ran y Strategaeth Sgiliau Iaith newydd	Cwblhawyd Tudalen swyddi ar wefan y Cyngor ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
137B	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	Adran Adnoddau Dynol – gwirio'r canllawiau presennol a datblygu canllaw newydd o ran Recriwtio a'r Gymraeg	Cwblhawyd Mae gweithdrefnau recriwtio yn cyrraedd y safon hon.

<p>139</p>	<p>Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi - (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).</p>	<p>Adran Adnoddau Dynol – trafod cymal (a) o ran ffurflenni cais a darpariaeth cyfieithu ar y pryd</p>	<p>Cwblhawyd Ffurflenni cais yn cyrraedd y safon hon.</p>
<p>140</p>	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.</p>	<p>Adran Adnoddau Dynol</p>	<p>Cwblhawyd Dogfennaeth safonol ar gael yn ddwyieithog.</p>
<p>141</p>	<p>Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg,</p>	<p>Sicrhau bod Eiddo Corfforaethol a Cynnal Eiddo'n cynnwys y Safon hon yn ei weithdrefnau. Creu basdata ar gyfer y fewnrwyd o dermau ac arwyddion (Drwy'r Swyddogion Cefnogi Busnes) – blaenoriaethu'r Adran Hamdden</p>	<p>Cwblhawyd Cwblhawyd</p>

	rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.		
142	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Sicrhau bod Eiddo Corfforaethol a Cynnal Eiddo'n cynnwys y Safon hon yn ei weithdrefnau.	Cwblhawyd
143	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant	Sicrhau bod Eiddo Corfforaethol a Cynnal Eiddo'n cynnwys y Safon hon yn ei weithdrefnau.	Cwblhawyd
144	Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Adnabod pa weithleoedd sy'n defnyddio uchelseinydd (gweler 87) Cyfathrebu'r Safon gyda'r gweithleoedd hynny Cynnwys yng nghanllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus	Cwblhawyd
167	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Trafod gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau anghenion Cyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r Safonau ar wefan y Cyngor. Cyhoeddi dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor	Cwblhawyd Cwblhawyd (b) Gwnaed cyflwyniad i'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y Safonau gan gynnwys tynnu sylw at y dogfennau ar y we. Anfonwyd dolen i'r staff yn dilyn

			y cyfarfod i'w cynorthwyo gyda hyn.
168	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler Safon 162 ac 156 • Diweddarau'r weithdrefn / canllaw delio â chwynion yn unol â'r Safonau • Parhau â'r drafodaeth am rôl Penaethiaid Gwasanaeth o fewn y weithdrefn 	Cwblhawyd
169	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu fel yr Adroddiad Blynyddol cyntaf. Cynnwys rhagair gan yr Aelod Portffolio ac atodiadau penodol. • Hybu'r gwasanaethau yn fewnol drwy Y Gair / E Gair, canllawiau i staff a sesiynau briffio • Hybu'r gwasanaethau i'r cyhoedd drwy'r wefan a Newyddion Sir Gâr • Parhau i ddatblygu a Gweithredu'r Cynllun Cyfathrebu 	<p>Cytunwyd ar fformat Cynllun Gweithredu blynyddol yn ogystal sy'n cynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo.</p> <p>Cwblhawyd</p>
170	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas	Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr elfennau hybu, hwyluso	Cytunwyd ar ffordd i adrodd sy'n cynnwys yr

	<p>â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a</p>	<p>a goruchwylio yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.</p>	<p>elfennau hybu, hwyluso a goruchwylio sef yr adroddiad blynyddol.</p> <p>Ceisiadau am gyrsiau hyfforddi yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith y ddarpariaeth.</p> <p>170 [b] – rhwng 01.04.16 – 31.03.17:</p> <p>4293 o weithwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddi yn ystod y flwyddyn a oedd hefyd yn cael eu cynnig yn Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> • 170 [c] – rhwng 01.04.16 – 31.03.17: <p>O'r 4293 o weithwyr a fynychodd y cyrsiau a gynigiwyd yn Gymraeg, mynychodd 325 y sesiynau Cymraeg [7.57%].</p>
--	---	---	--

	<p>gadwasoch yn unol â safon 154);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael –</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
171	<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	Cyhoeddi Cynllun Gweithredu	Cwblhawyd
172	<p>Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	

Dosbarth o Safon: Cadw Cofnodion

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu	Statws a thystiolaeth
147	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r tîm Rheoli Perfformiad (gweler 168) Adran Gwynion • Parhau â'r weithdrefn hyd nes daw diweddariad o ran hysbysu Penaethiaid Gwasanaeth 	Yn parhau i gadw cofnod
148	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Gwynion – cadarnhau bod yr adran yn cadw cofnod o'r gŵyn ysgrifenedig gwreiddiol • Cyfarfod gyda ND 	Cwblhawyd
149	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio)	<ul style="list-style-type: none"> • Adran Gwynion – cadarnhau bod yr adran yn cadw cofnod o'r gŵyn ysgrifenedig 	Cwblhawyd
150	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r	Os bydd Canllaw i staff ar effaith polisiau ar y Gymraeg, (gweler safon 88) bydd angen sicrhau bod y	Yn parhau

	safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	safon hon yn cael ei gynnwys ynddo. Sicrhau bod Rheolwyr yn cymryd cyfrifoldeb o gadw cofnod o asesiadau effaith.	
151	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r isadran Adran Adnoddau Dynol yn ein cyfarfodydd • Derbyn canlyniadau cyntaf yr awdit • Cadarnhau trefniadau ar gyfer cynnal yr awdit ymhlith staff sydd heb gyswllt swyddfa • Derbyn canlyniad yr awdit staff heb gyswllt swyddfa • Sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i Outlook • Sicrhau bod y tîm Dysgu a Datblygu yn derbyn y data ac yn ymateb drwy'r ddarpariaeth 	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Holiadur ar bapur wedi cael ei gylchredeg i staff heb gyswllt swyddfa</p>
153	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r isadran Adran Adnoddau Dynol yn ein cyfarfodydd 	Cwblhawyd
154	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r isadran Adran Adnoddau Dynol yn ein cyfarfodydd • Sicrhau ein bod yn monitro yn 	Cwblhawyd

	<p>newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn</p> <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	<p>unol â Strategaeth Sgiliau Iaith y cyngor a'r fframwaith asesu</p>	
175	<p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor. • Cadarnhau amserlen gyda'r uned Gyfathrebu 	<p>Cwblhawyd</p> <p>(b) Gwnaed cyflwyniad i'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y Safonau gan gynnwys tynnu sylw at y dogfennau ar y we. Anfonwyd dolen i'r staff yn dilyn y cyfarfod i'w cynorthwyo gyda hyn.</p>
176	<p>Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.</p>	<p>Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.</p>	

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn blwyddyn.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Camau Gweithredu	Statws a thystiolaeth
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	<ul style="list-style-type: none"> Cynnwys yn y daflen Canllawiau Comisiynu, Caffael, Grantiau, Tendro a chytundebau. Gofyn am ddiweddariad gan yr Uned Gaffael a sicrhau bod cyfieithu'r adnoddau ar y gweill. Ymchwilio i'r posibilrwydd o hyrwyddo y gwasanaeth hwn e.e. Sell4Wales 	<p>Penderfynwyd peidio â chreu y daflen hon gan fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen debyg.</p> <p>Mae'r ddogfennaeth tendro yn gwbl ddwyieithog.</p> <p>Mae gofidiau ynglŷn â system Bravo wedi'i amlygu i Swyddfa'r Comisiynydd.</p>
104	Gweithredu	<p>(b) Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi -</p> <p>(a) gwyliau, absenoldebau o'r gwaith, ac</p> <p>(c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Parhau gyda'r cyfarfodydd misol gyda Adnoddau Dynol. Gofyn am ddiweddariad o ran y meddalwedd Resource Link 	<p>Dogfennau safonol ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Ar gael ar fewnrwyd y Cyngor.</p>

121	Gweithredu	<p>Rhaid ichi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gwaith paratoi'r fewnrwyd ar waith • Gofyn am ddiweddariad o ran yr amserlen • Cydweithio â'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau o ran cynnwys ar y Gymraeg a sicrhau trosglwyddo'r adnoddau cyfredol 	Cwblhawyd
128	Gweithredu	<p>Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -</p> <p>(a) recriwtio a chyf-weld;</p> <p>(b) rheoli perfformiad;</p> <p>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu;</p> <p>(d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnu cyfarfod gyda Dysgu a Datblygu i drafod y ddarpariaeth 	Mae'r dewis i dderbyn hyfforddiant yn y naill iaith yn cael ei gynnig ar bob cais. Nodir uchod y niferoedd. Mae'r holl fodiwlau e-ddysgu yn y broses o gael eu cyfieithu a chyhoeddir pob modiwl newydd (gan gynnwys y modiwl anwytho) yn ddwyieithog.
129	Gweithredu	<p>Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn -</p> <p>(a) cyfarfodydd;</p> <p>(b) cyfweiliadau; ac</p> <p>(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnu cyfarfod gyda Dysgu a Datblygu i drafod y ddarpariaeth a chyfleoedd i ychwanegu'r ddarpariaeth i'r Strategaeth Dysgu a Datblygu 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweler uchod • Hyfforddiant Cwynion / Canmoliaeth corfforaethol ar gael ar hyn o bryd yn ddwyieithog drwy e-ddysgu.

145	Hybu	<p>Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -</p> <p>(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a</p> <p>(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;</p> <p>a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).</p>	<p>Trafod drafft gyda'r Fforwm sirol a'r Panel ymgynghorol</p> <p>Penderfynu ar fformat Cynllun</p> <p>Gweithredu gyda chymau gweithredu</p> <p>Cadarnhau amserlen i gyflwyno'r ddogfen drwy'r broses ddemocrataidd</p> <p>Edrych ar bosibiliadau o brosiectau penodol yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cychwynnwyd ar brosiectau penodol gan gynnwys mapio canfod mesuryddion a chreu taflen i hyrwyddo dwyieithrwydd</p>
146	Hybu	<p>Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -</p>	<p>Adrodd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu (Gweler 145)</p>	

		<p>(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a</p> <p>(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -</p> <p>(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;</p> <p>(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>b, ii) Adolygu system adrodd y mudiadau hybu'r Gymraeg, sy'n derbyn nawdd, er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer adrodd.</p> <p>Cyhoeddi'r adroddiad.</p>	Cwblhawyd
152	Cadw Cofnodion	<p>Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o -</p> <p>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a</p> <p>(b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn monitro mynychwyr pob cwrs Coladu'r wybodaeth ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol 	<p>Ceisiadau am gyrsiau hyfforddi yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith y ddarpariaeth.</p> <p>170 [b] – rhwng 01.04.16 – 31.03.17:</p> <p>4293 o weithwyr wedi mynychu cyrsiau hyfforddi yn ystod y flwyddyn a oedd hefyd yn cael eu cynnig yn</p>

		fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.		Gymraeg. • 170 [c] – rhwng 01.04.16 – 31.03.17 O'r 4293 o weithwyr a fynychodd y cyrsiau a gynigiwyd yn Gymraeg, mynychodd 325 y sesiynau Cymraeg [7.57%].
173	Hybu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor • Cadarnhau amserlen gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau 	Cwblhawyd (b) Gwnaed cyflwyniad i'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y Safonau gan gynnwys tynnu sylw at y dogfennau ar y we. Anfonwyd dolen i'r staff yn dilyn y cyfarfod i'w cynorthwyo gyda hyn.
174	Hybu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	

Ysgrifennu'n Gymraeg a'ch Cyfrifiadur



Gallwn ni ddefnyddio technoleg i'n cynorthwyo i ysgrifennu'n Gymraeg yn ein gwaith. Mae cymorth i wirio sillafu ar gael. Mae geiriaduron ar gael ar lein ac mae yna dempledi gallwn osod mewn lle i gynorthwyo ni i gael pethau'n iawn. Dyma sut...

Windows yn Gymraeg


Os ydych chi'n gosod **Windows** i ddefnyddio'r Gymraeg, bydd eich holl eiconau a ffeiliau yn Gymraeg ar holl raglenni Windows.

Efallai y bydd yn anghyfforddus i ddechrau, gan eich bod mor gyfarwydd â'r termau yn Saesneg, ond byddwch yn cyfarwyddo â gweld yr eiconau'n Gymraeg yn fuan iawn gan eu bod yn union yn yr un man â'r eiconau Saesneg i gyd.

Fe fydd hyn, heb os, yn gwella eich Cymraeg yn gyffredinol gan helpu chi i gyfarwyddo â thermau gwaith bob dydd yn Gymraeg.

Dyma sut i osod Windows yn Gymraeg:

- Cliciwch ar Start
- Cliciwch ar Control Panel
- Cliciwch ar Region and Language
- Cliciwch ar Keyboards and Languages
- Dewiswch Cymraeg yn y blwch, fel hyn:




Office yn Gymraeg

Yn yr un modd, gallwch gael eiconau eich rhaglenni Office yn Gymraeg, sef Outlook, Excel, Word a Powerpoint.

Eto, bydd yr eiconau i gyd yn ymddangos yn yr un lle ag yn Saesneg a byddwch yn cyfarwyddo'n gyflym iawn gyda thermau fel 'cadw' yn lle 'save' er enghraifft.

Ewch ati fel hyn:

- Agorwch Microsoft Word
- Cliciwch ar File, Options, Language
- Cliciwch ar Choose Display and Help Languages
- Cliciwch ar Welsh [Cymraeg] ym mhob tabl
- Cliciwch ar Set as Default



Safonau 7, 120, 125, 134-5

Gwirio sillafu a gramadeg


Microsoft Office

Mae modd i chi gael eich rhaglenni Office i brawf ddarllen eich gwaith wrth i chi ysgrifennu yn Gymraeg.

Gallwch newid yr iaith prawf ddarllen pryd bynnag y mae'n addas wrth i chi weithio ar ddogfennau Saesneg a Chymraeg. Gallwch hyd yn oed uwch oleuo rhan o'r testun i wirio'r Gymraeg, cyn newid yr iaith yn ôl i lunio'r testun Saesneg.

Dyma sut:

- Agorwch Microsoft Word
- Cliciwch ar Review, Language, Set Proofing Language
- Cliciwch ar Welsh
- Cliciwch ar Set as Default
- Cliciwch ar OK



Bydd y gwirydd sillafu (spell-check) yn rhoi llinellau coch o dan y geiriau sydd wedi'u camsillafu.

Atodiad 2 – Adroddiad Cynllun Cyfathrebu'r Safonau 2016-17

Cyfathrebu Mewnol

Amserlen	Thema / prif negeseuon	Prif gyfrwng
Mai 2016	Cyfrifoldebau wrth drefnu cyfarfodydd drwy wahoddiad	Cylchlythyr Adfywio a pholisi
	Cyfrifoldebau ynglŷn â recriwtio a'r Gymraeg	Y Gair / e-Gair
Mehafin 2016	Arddangos Arwyddion: hyrwyddo Canllaw 7 – Dylunio a Cyhoeddi	Y Gair / e-Gair
Gorffennaf 2016	Cyfrifoldebau wrth ohebu : hyrwyddo Canllaw 3	Y Gair / e-Gair
	Stondin wybodaeth: Hyrwyddo'r canllawiau a chyfleoedd dysgu Cymraeg	Sioeau teithiol staff
Medi 2016	Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg	Y Gair / e-Gair
	Argraffu a gohebu'n ddwyieithog	Dylunio posteri i'r ystafelloedd ag argraffwyr
	Sesiwn hyfforddiant ar y Safonau	Sesiwn hyfforddiant i'r Uned Gyfieithu
Hydref 2016	Stondin wybodaeth: Hyrwyddo'r canllawiau a chyfleoedd dysgu Cymraeg	Cynhadledd rheolwyr
	Hyrwyddo Diwrnod Shwmae Sumae a chyfleoedd dysgu Cymraeg	Neges e-bost torfol Dot-mailer oddi wrth y Cynghorydd Mair Stephens
Tachwedd 2016	Cyfrifoldebau wrth arddangos deunyddiau marchnata	Y Gair / e-Gair
Ionawr 2017	Cyfleoedd cyrsiau Carlam, cael mentor, a chysiau Croeso i'r Gymraeg	Y Gair / Bwletin wythnosol yr Adran Farchnata a Newyddion y fewnwyd Neges e-bost torfol Dot-mailer o'r Cynghorydd Mair Stephens (*gw. Isod)
Chwefror 2017	Hyrwyddo Canllaw 6 - Ysgrifennu'n Gymraeg a'r Cyfrifiadur	Y Gair / Bwletin wythnosol yr Adran Farchnata a Newyddion y fewnwyd
	Hyrwyddo'r Canllawiau a chyfrifoldebau rhoi mynediad i'r Safonau a'r Adroddiad Blynyddol yn ein canolfannau	Cyflwyniad i staff Gwasanaethau Cwsmeriaid
	Hyrwyddo'r Clwb Clecs newydd i ddysgwyr	Mewnwyd (*gw. Isod)
Mawrth 2017	Hyrwyddo mentoriaid yr Adran Hamdden	Y Gair / Bwletin wythnosol yr Adran Farchnata a Newyddion

		y fewnwyd
Ebrill 2017	Gwirio dwyieithrwydd adeiladau cyhoeddus	Y Gair / Bwletin wythnosol yr Adran Farchnata a Newyddion y fewnwyd
	Cyfrifoldeb wrth argraffu deunyddiau'n ddwyieithog	Dosbarthu posteri i'w harddangos yn Ystafelloedd yr Argraffwyr (gweler isod)

[macroErrorLoadingPartialView]



[English](#) | [Heppor gwe-lywio](#) | [Mewngofnodi](#) | [ResourceLink](#) | [Myfanwy Jones](#)

[EIN POBL](#) | [NEWYDDION DIWEDDARAF](#) | [E-GAIR A NEWYDDLEHNI](#) | [BETH SYDD YMLAEN](#) | [PWY YW PWY](#) | [FFORWJ STAFF](#) | [A+Y](#)

Q

ADDUNED BLWYDDYN NEWYDD I DDYSGU CYMRAEGI

Diolch am gwblhau'r Awdit Sgiliau Iaith Gymraeg llynedd. Rydyn ni i gyd wedi gwneud addunedau blwyddyn newydd, felly beth am addunedu i ddatblygu sgil newydd. Mae gennym ystod o raglenni dysgu ar gael i chi i wella eich sgiliau Cymraeg.

- Ar gyfer y 24% ohonoch chi sydd heb sgiliau Cymraeg, ewch ati yn y flwyddyn newydd i gychwyn ar eich iaith gyda cwrs, [Croeso i'r Gymraeg](#). Bydd y cwrs hanner diwrnod defnyddiol hwn yn eich cyflwyno i rai brawddegau syml, ac yn eich helpu i ynganu'n gywir.
- ...ac i'r rhai sydd eisiau datblygu eu sgiliau Cymraeg, gallwch fynychu Cwrs Carlam, [sef 5 sesiwn a fydd yn gyflwyniad i'r Gymraeg](#), fel eich bod yn gallu ymuno o'r newydd gyda chysiau Mynediad Un sydd wedi bod yn rhedeg ers Mis Hydref.
- Os oes angen magu hyder yn y Gymraeg amoch, beth am alw i mewn i'r Clwb Siarad sy'n dechrau ar y 19 Ionawr, yn "Blas Myrddin", Parc Dewi Sant bob dydd Iau am 1.30 – 2.00 y/p. Gallwch alw mewn am gyngor am y cysiau neu i gael sgwrs i ymarfer eich Cymraeg.
- Ysgrifennu'n Gymraeg – Mae 1/3 o staff y Cyngor yn gallu ysgrifennu Cymraeg ar gyfer defnydd anffurfiol, a ¼ o staff y Cyngor yn gallu ysgrifennu Cymraeg ffurfiol. I'ch helpu i ddefnyddio'r sgiliau hyn, rydyn ni wedi llunio canllaw i'ch cynorthwyo chi i ddefnyddio'r cyfrifiadur i'ch helpu i ysgrifennu'n Gymraeg. Gallwch osod gwirnydd sillafu ar word, neu gael eich holl eiconau windows yn Gymraeg.

COFRESTRU AR GYFER EGAIR

Cofrestrwch er mwyn derbyn eGair i'ch cyfeiriad e-bost personol.

Dewiswch pa iaith

Cymraeg
 English



powered by



Hyrwyddo Gwersi Cymraeg ar y fewnwyd

Caerfyrddin a £250,000 i ariannu ystod o fesurau sy'n cynnwys gwella mynediad i Ysgol Gynradd Pontyberem.

» Darllen mwy




Clwb Clecs Caerfyrddin

Mae clwb misol newydd i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yng Nghaerfyrddin cael cyfle i sgwrsio ac ymlacio yn cael ei lansio'r wythnos nesaf.

Mae Clwb Clecs Caerfyrddin yn cael ei drefnu ar y cyd rhwng Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr, y Cyngor Sir a Dysgu Cymraeg Sir Gâr.

» Darllen mwy



Ci a gafodd ei achub gan warden yn 'gwella'n dda'

Hyrwyddo Clwb Clecs i ddysgwyr ar y fewnwyd

Hyrwyddo'r Gymraeg: Cyfathrebu gyda'r Cyhoedd

Amserlen	Thema / prif negeseuon	Prif gyfrwng
Chwefror 2016	Cysylltwch â'r Cyngor yn Gymraeg 'Pa bynnag ffordd...'	Newyddion Sir Gâr a Lloffwr (*gw. Isod)
Ebrill 2016	Cysylltwch â'r Cyngor yn Gymraeg	Arosfa bysiau 'Pa bynnag ffordd' (*gw. Isod)
Mehefin 2016		Marchnadoedd y sir
Mehefin 2016	Cysylltwch â'r Cyngor yn Gymraeg	Tenant 2 Tenant Haf
Hydref 2016	Linc at wefan <i>Amdani</i> a holiadur ar ddefnydd y Gymraeg	E-bost <i>Shwmae Sumae</i> o'r Adran Hamdden i'r clybiau chwaraeon (*gw. Isod)
Ionawr 2017	Hyrwyddo'r Strategaeth hybu	Baner ar y wefan (*gw. isod)
Chwefror 2017	Mae cymorth ar gael i weithio'n ddwyieithog	Cynhadledd Cynnal digwyddiadau
Mawrth 2017	Hyrwyddo Addysg Ddwyieithog	Llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog yn Sir Gâr' (*atodiad 5)
Mawrth 2017	'Croeso i chi siarad Cymraeg' gyda'r Cyngor	Dylunio ac argraffu trioglau arddangos ar ddesg

Pa bynnag ffordd...



...mae 'na groeso i chi **gysylltu** â Chyngor Sir Gâr yn **Gymraeg**



IAITH SIR GÂR
 EICH CYNGOR **arleinamdan**
 www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
 www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Learning the language?



...you are welcome to **contact** us in **Welsh**



IAITH SIR GÂR
 EICH CYNGOR **arleinamdan**
 www.sirgar.llyw.cymru/trafodiath
YOUR COUNCIL doitonline
 www.carmarthenshire.gov.wales/trafodiath

Hyrwyddo Gwasanaeth Cymraeg y Cyngor i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr



Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor ar arosfannau bysys

Diwrnod Shwmae Su'mae! Hydref 16



Mae Hydref y 15eg yn ddiwrnod dathlu'r Gymraeg. Beth am gychwyn eich sesiwn hyfforddi ar y penwythnos hwn yn Gymraeg? Mae pawb yn Sir Gâr yn deall 'Shwmae', a nifer o eiriau eraill Cymraeg, hyd yn oed os nad ydyn yn siarad yn rhugl. Os hoffech gymorth gyda thermâu chwaraeon Cymraeg neu adnoddau Cymraeg, ewch at

<http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/hybu/cy/canllawiau/Pages/amdani!.aspx>

A chan ein bod yn dathlu defnyddio'r Gymraeg, beth am lenwi'r holiadur byr isod a'i anfon yn ôl at HGJones@sirgar.gov.uk. Os ydych yn ei ddanfôn yn ôl, fe gewch gardiau fflach Cymraeg i'ch helpu i ddefnyddio'r Gymraeg wrth hyfforddi.

1. Enw'r Clwb:

2. Pa Gamp?

3. Ydych chi'n glwb Cymraeg Saesneg yn bennaf Dwyieithog

4. Faint o'ch hyfforddwyr sy'n gallu siarad Cymraeg?

5. Oes gennych chi sesiynau hyfforddi Cymraeg penodol?

6. Faint o'ch aelodau sy'n siarad Cymraeg?

7. Hoffech chi gael cymorth pellach i wneud eich clwb yn fwy dwyieithog?





Ewch i'r Ystafell Newyddion ar gyfer newyddion dyddiol, diweddariadau a mwy

NEWYDDION

Hyrwyddo cyhoeddi'r Strategaeth Hybu ar y wefan gorfforaethol

Atodiad 3 – Cadeirio Cyfarfodydd

Safonau Iaith Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council Welsh Language Standards

Cadeirio Cyfarfodydd Chairing meetings

Croeso i'r cyfarfod	Welcome to the meeting
Croeso yma heddiw	Welcome here today
Diolch am ddod yma heddiw	Thank you for coming here today
Mae'r cyfarfod yn ddwyieithog	This is a bilingual meeting
Croeso i chi ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg	You're welcome to use Welsh or English
Mae cyfieithu ar y pryd ar gael	Simultaneous translation is available
Croeso i..., y cyfieithydd	Welcome to..., the translator
Ydy'r clustffonau'n gweithio?	Do the headphones work?
Dechreuwn	We'll start
Oes unrhyw ymddiheuriadau?	Are there any apologies?
Trown at yr agenda	We'll turn to the agenda
Yr eitem gyntaf ar yr agenda ydy..	The first item on the agenda is...
Awn drwy gofnodion y cyfarfod blaenorol	We'll go through the agenda of the previous meeting
Hoffai unrhyw un gynnis fod y cofnodion yn gywir?	Would anyone like to propose that the minutes are correct?
Mae angen ethol swyddogion	We need to elect officers
Oes unrhyw un am gynnis ei hun?	Would anyone like to offer themselves?
Oes unrhyw un yn eilio?	Does anyone second that?
Pasiwyd y cynnis	The motion has been passed
Yr eitem nesaf ydy	The next item
Ac yn olaf...	And lastly...
Oes unrhyw faterion yn codi?	Any matters arising?
Oes gennych chi unrhyw sylwadau?	Do you have any comments?
Oes gennych chi unrhyw gwestiynau?	Do you have any questions?
Oes unrhyw fater arall?	Any other business?

Safon 125, 8, 9, 10, 18, 20



© Mae Prifysgol Cymru Y Ddeddf Dewi Sant yn datgan ei hawl moedol dan Ddeddf Hawffraint, Dylunadau a Phatentau 1988 i gael ei hachubod fel awdur a dylunwr y gwaith yn ôl eu trwm. Cwir atgynhyrchu Cymraeg y pecyn hwn at ddefnydd oddi mewn i sefydliad y prifysgol yn unig.



Atodiad 4 – Poster argraffwyr



IAITH SIRGAR

Cofiwch y camau hyn wrth argraffu deunyddiau yn ddwyieithog



Remember the following steps when printing materials bilingually



Sicrhewch fod:

- ✓ Y Gymraeg yn y safle y mae fwyaf tebygol o gael ei ddarllen yn gyntaf – e.e. ar y top neu ar yr ochr chwith
- ✓ Y ddwy iaith yn gywir o ran ystyr a mynegiant
- ✓ Angen i bob dogfen a llythyr sy'n cael ei ddsbarthu i'r cyhoedd fod yn ddwyieithog
- ✓ Fersiynau dwyieithog sy'n gweithio orau – cefn wrth gefn
- ✓ Os ydych chi'n cyhoeddi llythyr, nodwch ar bob llythyr Saesneg a Chymraeg 'Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. You're welcome to contact the council through the medium of Welsh or English'
- ✓ Eich manylion cyswllt yn ddwyieithog ar lythyrau.

Please ensure that:

- ✓ The Welsh language is in a position where it is most likely to be read first – i.e. on the top or to the left hand side
- ✓ Both languages are correct in terms of meaning and expression
- ✓ Every document and letter that is sent out to the public is bilingual
- ✓ Bilingual versions work best - back to back
- ✓ If you're printing a letter, state on every English and Welsh letter, 'Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. You're welcome to contact the council through the medium of Welsh or English'
- ✓ Include your contact details bilingually on letters.

Gallwch gael gwybodaeth pellach am y **Safonau Iaith** ar y fewnryd.

Cysylltwch â iaithgymraeg@sirgar.gov.uk am fanylion pellach.




Further guidelines on the **Welsh Language Standards** can be found on the intranet.

Contact welshlanguage@carmarthenshire.gov.uk for further details.







Atodiad 6 - Cwynion a dderbyniwyd 2016/17

Isod mae rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2016/17 ynghyd â chrynodeb o'r gweithredu yn dilyn eu derbyn.

Ymdriniwyd â'r cwynion yn unol â Gweithdrefn Gwynion y cyngor.

	Cwyn	Ymateb a gweithredu
1.	Cwyn ynghylch swydd hyfforddi nofio a hysbysebwyd gan ofyn am lefel 2 o ran yr iaith Gymraeg gan nodi bod sgiliau Cymraeg sylfaenol yn ddigonol.	<ul style="list-style-type: none"> Ailaseswyd y swydd hyfforddi nofio a newidiwyd y gofynion iaith Gymraeg i lefel 3.
2.	Cwyn ynghylch rhaglen hyfforddiant i Lywodraethwyr ysgolion gyda diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hysbyswyd y Cyngor hefyd bod cwrs diogelwch ar y we yn cael ei hysbysebu yn Saesneg yn unig.	<ul style="list-style-type: none"> Penderfynwyd i beidio cynnal y cwrs hyfforddiant diogelwch ar y we tan bod y cwmni allanol yn dod o hyd i hyfforddwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cynhaliwyd asesiad o ddewis iaith Llywodraethwyr yn gofyn pa iaith roeddent yn dymuno derbyn yr hyfforddiant er mwyn gallu cynllunio'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.
3.	Cwyn ynghylch camgymeriad ar fat wrth fynedfa Marchnad Caerfyrddin	<ul style="list-style-type: none"> Archebwyd mat newydd a'i osod yn y fynedfa
4.	Cwyn ynghylch arwyddion ffordd newydd a oedd yn cynnwys enw Saesneg yn unig (Johnstown)	<ul style="list-style-type: none"> Gosodwyd arwyddion newydd dwyieithog (Tre loan / Johnstown)
5.	Cwyn ynghylch arwyddion ar safle ailgylchu Cwm Environmental yn Nantycaws a bod y Gymraeg yn wallus. Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg y gŵyn am yr arwyddion hefyd a dechreuodd ymchwilio ar 10 Mai 2016 yn unol ag adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61 a safon 63. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ar 21 Tachwedd 2016.	<ul style="list-style-type: none"> Dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 61 gan fod yr arwydd wedi'i godi cyn 30 Mawrth 2016. Dyfarnodd y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 63 gan nad oedd yr arwydd yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Tynnwyd yr arwydd o'r safle ailgylchu ym mis Mai 2016 a sicrhawyd bod yr holl arwyddion yn y 5 Canolfan Ailgylchu yn gywir o ran ystyr a mynegiant.
6.	Cwyn am gerdyn pleidleisio gydag enw tref a sir ar gyfeiriad post yr achwynydd yn Saesneg yn unig. Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg y gŵyn gan aelod o'r cyhoedd a	<ul style="list-style-type: none"> Yn dilyn dechrau'r ymchwiliad, daeth yn amlwg nad Cyngor Sir Gâr oedd yn gyfrifol am y cerdyn pleidleisio. Y Swyddog Canlyniadau oedd yn gyfrifol am y cerdyn pleidleisio nid Cyngor Sir Gâr.

	phenderfynodd gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg.	
7.	Ymchwiliwyd i wersi nofio Cyngor Sir Gâr gan y Comisiynydd yn dilyn derbyn gwybodaeth gan aelod o'r cyhoedd i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Darparodd y Cyngor wybodaeth yn unol â gofynion y Safonau gan ddilyn Gweithdrefn y Comisiynydd.	<ul style="list-style-type: none"> • Dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â Safon 81 ar y sail fod y Cyngor yn hybu'r wersi nofio Cymraeg ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg. • Dyfarnodd y Comisiynydd fod Cyngor Sir Gâr wedi methu â chydymffurfio â safon 84 ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig wersi nofio yn Gymraeg ar rai lefelau, er bod wersi nofio'n cael eu cynnig ar y lefelau hynny yn Saesneg. Mae'n ofynnol bod Cynllun Gweithredu yn ei baratoi o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr adroddiad ymchwiliad terfynol i ddangos y camau sy'n cael eu cymryd i gydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â wersi nofio. • Dyfarnodd y Comisiynydd nad oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 86 a y sail nad oedd y Cyngor wedi datblygu unrhyw gwrs mewn perthynas â wersi nofio yn y cyfnod ers y diwrnod gosod.
8.	Arwydd gwallus ar faen coffa a osodwyd yng ngerddi Neuadd y Dref, Llanelli	<ul style="list-style-type: none"> • Er nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am osod yr arwydd roedd yr arwydd wedi cael ei osod ar dir y Cyngor. Cydweithiodd y Cyngor gyda Grŵp Coffa Llanelli i sicrhau cywirdeb arwydd newydd cyn ei osod ar y maen coffa.

Atodiad 7 : Hyfforddiant a ddarparwyd 2016-17

Modiwl Ymwybyddiaeth Iaith – pecyn e-ddysgu	133
Croeso i'r Gymraeg – Lefel 1	193
Gweithdy hanner diwrnod i staff i gyrraedd lefel 1	
Cwrs arbenigol i Ofalwyr sy'n gweithio gyda pobl hŷn	4
Cwrs Sgiliau Mentora	11
Mynediad (Fast track)	6
Mynediad 1	16
Mynediad 2	14
Mynediad Dwys	5
Sylfaen 1	13
Sylfaen 2	12
Sylfaen Dwys	1
Canolradd 1	2
Canolradd 2	3
Siawns am Sgwrs 3	1
Uwch 1	1
Uwch Dwys	1
Cymraeg i'r Teulu	1
Cymraeg i Ddechreuwyr (Dal i fyny)	10
Gwella eich Cymraeg: Llafar A	7
Gwella eich Cymraeg: Llafar B	9
Gwella eich Cymraeg: Ysgrifennu a Siarad	4
Gwella eich Cymraeg: Sgiliau Ysgrifennu	10
Hyfforddiant Arweinwyr Iaith Adran yr Amgylchedd	10
CYFANSWM Y DYSGWYR	467

Atodiad 8 – Awdit Sgiliau Iaith

Dim Sgiliau Llafar	840	Dim Sgiliau Ysgrifennu	1624
Lefel 1 Llafar	1474	Lefel 1 Ysgrifennu	1304
Lefel 2 Llafar	929	Lefel 2 Ysgrifennu	803
Lefel 3 Llafar	682	Lefel 3 Ysgrifennu	653
Lefel 4 Llafar	579	Lefel 4 Ysgrifennu	449
Lefel 5 Llafar	1009	Lefel 5 Ysgrifennu	671

- Gwnaethpwyd yr arolwg staff mewn dwy ran. Cynhaliwyd arolwg meta-cydymffurfiaeth ar gyfer yr holl staff swyddfa wedi ei ategu gan Arolwg drwy feddalwedd Snap a fersiwn papur ar gyfer meysydd gwasanaeth gweithredol.
- Darparodd yr arolwg drosolwg byr o'r gofynion i gofnodi sgiliau iaith i gefnogi Strategaeth Sgiliau iaith y Cyngor, gofynion cynllunio gweithlu ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg. Gwahoddwyd ein staff i hunanasesu eu sgiliau iaith lafar ac ysgrifenedig ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn erbyn y fframwaith newydd ac i nodi unrhyw ofynion / cefnogaeth datblygiadol.
- Hyd yn hyn, mae 87% o'r staff wedi ymateb ac mae'r data wedi cael ei lwytho i'r System Gyflogau/Adnoddau Dynol. Rydym yn parhau mewn cyswllt rheolaidd gyda chydlynwyr adrannol ac mae ymdrechion yn parhau i gyflawni ymateb llawn o bob maes gwasanaeth. Unwaith y bydd y data yn cael ei lwytho, byddwn yn gallu rhedeg adroddiadau yn proffilio sgiliau iaith y gweithlu er mwyn cynorthwyo gydag unrhyw ddadansoddiad bwlch sgiliau.